



Adroddiad y Prif Arholwr

Arholiadau Aelodaeth Sylfaenol Hydref 2014

Mae Aelodaeth Sylfaenol yn cyfateb i waith a wneir dan oruchwyliaeth ar lefel broffesiynol sylfaenol. Disgwylir i'r ymgeisydd gynhyrchu gwaith cywir, addas a graenus o fewn terfynau amser.

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 41

Llwyddo: 16

Braf oedd gweld, nid yn unig nifer sylweddol o ymgeiswyr yn sefyll yr arholiad, ond hefyd gyfran eitha boddhaol (39%) ohonynt yn llwyddo, yn enwedig gan fod elfennau addawol i'w gweld yng ngwaith y mwyafrif. Y gobaith yw, felly, fod yma gronfa o ddarpar gyfieithwyr a fydd yn medru llwyddo yn yr arholiad hwn ar ôl iddynt gael mwy o brofiad.

Roedd y ddau ddarn a osodwyd, er eu bod yn cynnwys digon o elfennau heriol i fod yn addas ar gyfer arholiad, yn fwriadol yn ceisio sicrhau bod cynnwys y prawf o fewn profiad y rhan fwyaf o gyfieithwyr ar y lefel hon. Er bod cryn nifer wedi llwyddo, ni chafodd neb ragoriaeth trwy sicrhau gradd 1 ar draws pob un o'r pedair elfen, ac mae hynny'n destun siom.

Darn 1

Er y gellid tybio bod testun y darn hwn yn faes digon cyfarwydd, nid oedd pawb yn gwybod am y drefn sy'n caniatáu 'absenoldeb awdurdodedig' o'r ysgol, ac roedd hynny'n tansilio dilysrwydd rhai o'r cyfieithiadau.

Dyma rai enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus a gafwyd:

...caused by pupils given leave...

...yn sgil disgyblion yn cael caniatâd

...in defiance of the new rules...

...yn groes i'r rheolau newydd...

...overshadowed...

...bwrw i'r cysgod...

...official figures have revealed...

...yn ôl ffigurau swyddogol...

...penalty notices...

...hysbysiadau cosb...

...being fined...

...sy'n cael eu dirwyo...

ond cafwyd hefyd lawer iawn o gyfieithiadau aflwyddiannus, megis anawsterau wrth gyfleu'r ystyr:

...an increase from 41,000

...cynnydd o 41,000

...it's likely...

...mae'n bosibl...

...higher prices...

...prisiau uchel...

...authorised absences...

...awdurdodi gormod o amser i ffwrdd...

...overshadowed...

...cael eu cysgodi...

Mae'n anodd peidio â theimlo peth rhwystredigaeth o weld ymgeiswyr sy'n gallu cynhyrchu gwaith digon derbyniol yn euog o wallau fel y rhain. Maent yn amlwg yn enghreifftiau o ddarllen diofal, a hynny wrth gyfieithu yn y lle cyntaf ac wrth brawfddarllen y gwaith, gan y dylai pob ymgeisydd wirio'i waith yn fanwl yn erbyn y gwreiddiol cyn ei gyflwyno.

Darn 2

Rhywbeth yn debyg oedd y patrwm yn achos yr ail ddarn, er bod ambell un wedi cael mwy o drafferth gyda hwn, o bosib oherwydd bod yr amser yn mynd yn brin.

Unwaith eto, cafwyd rhai cynigion da, e.e.:

...live in a housing association or council property...

...byw mewn cartref sy'n eiddo i gymdeithas dai neu'r cyngor...

...less in housing benefit...

llai o fudd-dal tai...

...what counts as...

... yr hyn a ystyrir yn...

Bedroom Tax allowance for a child can be claimed by one parent only

Un rhiant yn unig all hawlio Lwfans Treth Ystafell Wely ar gyfer plentyn

...and will still be affected by the rules of Bedroom Tax

...a bydd rheolau'r Dreth Ystafell Wely'n berthnasol o hyd

ond mewn mannau eraill collwyd yr ystyr yn llwyr, neu mae gwallau cystrawennol difrifol, e.e.:

...live in a housing association or council property...

...byw mewn cymdeithas tai neu eiddo cyngor...

...one or more [spare] bedrooms...

...mwy nag un ystafell wely...

...having one spare bedroom...

Mae cael un ystafell wely wag...

...taxable [spare] bedroom...

...ystafell wely sbâr yn agored i'r dreth

...a parent that they do not normally live with...

...rhiant nad ydynt fel arfer yn byw gyda...

...and will still be affected by the rules of Bedroom Tax

...bydd dal yn cael ei effeithio gan reolau'r Dreth Ystafell Wely

Y rhybudd i'r ymgeiswyr, felly, yw gofalu eu bod yn cyfieithu'n fanwl gywir, gan fod yma lawer gormod o enghreifftiau o gyfieithu llac a niwlog. Cyfleu ystyr y gwreiddiol yn gywir yw'r nod, a gwneud hynny mewn Cymraeg graenus, naturiol. O ganolbwyntio mwy ar yr agwedd honno, gallai nifer o'r rhai na fuont yn llwyddiannus y tro hwn lwyddo ar y lefel hon yn y dyfodol agos.

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 8

Llwyddo: 5

Braf yw nodi bod dros hanner yr ymgeiswyr yn y rownd hon wedi llwyddo i gyrraedd y safon angenrheidiol i lwyddo ar y lefel sylfaenol, ond serch hynny, boddhaol yn unig yw'r gwaith a gyflwynwyd ganddynt, ac ni lwyddodd yr un ymgeisydd i sicrhau gradd 1 ym mhob elfen. Wrth longyfarch yr ymgeiswyr llwyddiannus, felly, carwn eu hannog i fanteisio ar bob cyfle i loywi eu sgiliau.

Dyma rai enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus a gafwyd yn y ddau ddarn:

Mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru wedi ymuno â'r rhai sy'n galw...

*The leader of the Welsh Liberal Democrats has added her voice...
The leader of the Liberal Democrats in Wales has echoed the calls...*

Nid yw...wedi datgan cefnogaeth i'r syniad hyd yma.

...has not yet given his backing to the idea.

...is yet to support the idea.

...felly oni ddylen ni roi'r hawl iddyn nhw bleidleisio ar faterion o'r fath?

...so shouldn't they be given the right to vote on such issues?

...wedi awgrymu y gallai esiampyl yr Alban newid ei feddwl...

...have suggested that Scotland's lead could change his mind...

...mae'r ffaith fod pobl ifanc yr oed yma eisoes yn medru gadael yr ysgol a thalu trethi yn golygu eu bod yn ddigon hen i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

The fact that young people of this age can already leave school and pay taxes means they are old enough to make their own decisions...

Mae'n anodd dweud pryd yn union...

It's difficult to pinpoint exactly...

...10% o'r holl gasgliadau sydd yn y golwg...

...10% of all the collections are on show...

...a mere 10% of all the collections are on display...

Wrth ymlwybro ar hyd y coridorau...

Making my way along the corridors...

...cynnyrch crefftwyr gwlad...

...the produce of rural craftsmen...

...fe gydiodd y gorffennol yn fy nychymyg.

...the past took hold of my imagination.

Fodd bynnag, cafwyd hefyd enghreifftiau lle na lwyddwyd i greu cyfieithiad llwyddiannus:

...fu'r sbardun cychwynnol.

That was the initial hook.

Rwy'n cofio gwirioni ar yr ystafelloedd moethus...

I remember dotting at the luxurious rooms...

...gwisgoedd ffasiynol...

...fashionable dresses...

...a'u haddurniadau rhodresgar.

...and stilted furnishings.

Wrth ymlwybro...

As I wondered...

Er mai'r adeiladau hanesyddol sy'n dod i'r meddwl pan fo rhywun yn crybwyll enw Sain Ffagan...

Despite the fact that historical buildings spring to mind at the mention of the name St Fagan's...

Er bod mwyafrif o'r ymgeiswyr yn llwyddiannus, felly, a bod elfennau da ym mhob darn a gyflwynwyd, ni chafwyd yr un papur oedd yn cyrraedd yr uchelfannau. Mae yma addewid at y dyfodol, yn sicr, ond mae'n amlwg bod angen datblygu cryn dipyn ar grefft y cyfieithydd yn ogystal, er mwyn medru symud ymlaen at lefel Aelodaeth Gyflawn yn y man.

Wrth gloi fy adroddiad, carwn ddiolch i'r holl farcwyr am eu gwaith trylwyr, ac i staff y swyddfa am bob cymorth. Mae'r tîm cyfan bob amser yn barod eu cymwynas, ac yn amyneddgar dros ben – diolch o galon iddynt i gyd am hwyluso gwaith y Prif Arholwr i'r fath raddau.

**Fiona Gannon
Tachwedd 2014**